# Papur y Bwrdd

7 Gorffennaf 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | Diweddariad ynghylch Lles, Iechyd a Diogelwch |
| **Cyfeirnod y papur:** | **NRW B B 42.16** |
| **Paratowyd y papur gan:** | Ashleigh Dunn |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Emyr Roberts |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Gwybodaeth** |
| **Argymhelliad:** | Dylid nodi'r materion a'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Dylid nodi na fydd pob pennawd efallai'n berthnasol i'r pwnc | Sut y mae'r cynigion sydd yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br><br>**Ystyried yr hirdymor:**<br><br>**Gweithredu mewn modd integredig:**<br><br>**Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth:**<br><br>**Gweithio mewn modd cydweithredol:**<br><br>**Atal problemau rhag digwydd:**<br><br>Mae Map Ffordd Cyfoeth Naturiol Cymru yn disgrifio sut y mae ein llwyddiant yn dibynnu ar y modd yr ydym yn cydweithio i greu Cymru well. Mae'r map ffordd yn egluro ein gweledigaeth a'r hyn y byddwn yn ei wneud i'w gwireddu. Drwy'r gwaith yr ydym yn ei wneud a'r modd yr ydym yn ei gyflawni, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfrannu'n gadarnhaol at wella lles, iechyd a diogelwch ein staff a'n cwsmeriaid ar draws Cymru. Mae ein gwerthoedd yn golygu |

| | |
|---|---|
| | y byddwn yn gyfrifol ac yn atebol am ein gweithredoedd ac y byddwn yn gweithredu i'n cadw ein hunain a chadw pobl eraill yn ddiogel ac yn iach. |

## Mater

1. Diweddariad ynghylch lles, iechyd a diogelwch ar gyfer Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Cefndir

2. Mae'r papur briffio hwn yn disgrifio'r prif faterion a'r datblygiadau diweddar ynghylch lles, iechyd a diogelwch ac mae'n darparu'r newyddion diweddaraf, y prif ystadegau allweddol a dehongliad yn ogystal â chrynodeb o'r cynnydd a wnaed ynghylch materion penodol.

## Asesiad

3. Y prif ystadegau ynghylch damweiniau a digwyddiadau fu bron â digwydd ar gyfer 2016-17, fel yr oeddent ar 18 Mai 2016, gan gynnwys y ffigurau blwyddyn lawn ar gyfer 2014-15 a 2015-16 at ddibenion cymharu.

| | **Digwyddiadau ers yr adroddiad diwethaf i'r Bwrdd (31 Mawrth 2016)** | **Blwyddyn lawn 2015-16** | **Blwyddyn lawn 2014-15** |
|---|---|---|---|
| RIDDOR – staff[1] | 2 | 12 | 0 |
| Digwyddiadau a arweiniodd at golli amser – staff | 2 | 8 | 2 |
| Digwyddiadau lle na chollwyd amser – staff | 13 | 96 | 55 |
| Digwyddiadau fu bron â digwydd – staff[2] | 16 | 304 | 131 |
| Adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol | 1 | 3 | 4 |
| Digwyddiadau – contractwyr | 2 | 6 | 60 |
| Digwyddiadau – y cyhoedd[3] | 5 | 60 | |
| Digwyddiadau fu bron â digwydd – contractwyr | 7 | 88 | 98 |
| Digwyddiadau fu bron â digwydd – y cyhoedd | 2 | 76 | |

[1]Cafwyd dau ddigwyddiad y mae'n ofynnol adrodd yn eu cylch dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995, ers yr adroddiad diwethaf. Roedd un yn ddigwyddiad a arweiniodd at golli amser, lle'r oedd unigolyn wedi dioddef anaf i'w ben-glin, ac roedd y llall yn achos o gwympo ar ôl llithro/baglu, a arweiniodd at yr unigolyn yn torri ei law. Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn adran 4(i) isod.
[2] Mae nifer yr adroddiadau ynghylch digwyddiadau fu bron â digwydd ar gyfer y cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef yn isel o gymharu â chyfnodau blaenorol ac o gymharu â nifer y digwyddiadau. Rydym wedi tynnu sylw'r staff at y mater hwn wrth i ni fynd ati i ganolbwyntio ar wella'r graddau yr adroddir ynghylch digwyddiadau yn y sefydliad. Bydd y Gyfarwyddiaeth Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl yn rhoi cymorth pellach i'r busnes drwy ymgyrchoedd parhaus a digwyddiadau codi ymwybyddiaeth, ond bydd angen i arweinwyr a rheolwyr fynd ati i wella gyda'u staff ein perfformiad o ran adrodd ynghylch digwyddiadau.
[3]Roedd un digwyddiad, a oedd yn ymwneud ag aelod o'r cyhoedd, yn achos o farwolaeth (oherwydd trawiad posibl ar y galon wrth gerdded) ar Warchodfa Gwlyptiroedd Casnewydd.

- Mae digwyddiad RIDDOR yn fath penodol o ddigwyddiad y mae'n ofynnol adrodd yn ei gylch wrth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995.
- Digwyddiad a arweiniodd at golli amser yw achos lle mae aelod o staff wedi'i anafu wrth weithio ac, yn dilyn hynny, wedi cael amser i ffwrdd o'r gwaith neu wedi cyflawni dyletswyddau ysgafn o ganlyniad i'w anafiadau (dylid adrodd ynghylch digwyddiad o'r fath dan y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus os yw'r cyfnod yn fwy na 7 diwrnod). Bydd cyfnod o 'golli amser' yn dechrau ar y diwrnod cyntaf ar ôl i'r unigolyn gael ei anafu.
- Digwyddiad lle na chollwyd amser yw achos lle mae aelod o staff wedi'i anafu wrth weithio ond mai dim ond ychydig o gymorth cyntaf yr oedd ei angen arno, ac nad yw felly wedi cael unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith. Mae digwyddiadau lle na chollwyd amser yn cynnwys difrod i gerbydau ac offer Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Digwyddiad fu bron â digwydd yw digwyddiad nas cynlluniwyd/nas rheolwyd nad yw'n achosi anaf, afiechyd neu ddifrod, ond a allai wneud hynny.
- Mae anafiadau i aelodau'r cyhoedd yn ymwneud yn bennaf â damweiniau beicio mynydd ar ein llwybrau pwrpasol, a phobl yn llithro, yn baglu neu'n cwympo ar lwybrau cerdded. Caiff llwybrau eu hasesu o ran risg a'u harchwilio fel mater o drefn yn gyson, a chânt eu harchwilio hefyd ar ôl damwain.
- Mae digwyddiadau fu bron â digwydd i aelodau'r cyhoedd yn ymwneud yn bennaf ag achosion pan fo'r cyhoedd yn tresmasu ar safleoedd cynaeafu gweithredol.

**Ystadegau ynghylch absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer 2016/17**

4. Ers 1 Ebrill 2016, mae cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn cyfateb ar gyfartaledd i 4.8 o ddiwrnodau'n cael eu colli am bob gweithiwr, sef 2.26%. Meincnod Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau na chaiff mwy na 7 diwrnod eu colli ar gyfartaledd am bob gweithiwr, sy'n cyfateb i 3.1%.

5. Dyma'r tri phrif reswm dros absenoldeb ers 1 Ebrill 2016, a oedd yn cyfrif am 66% o'r holl achosion o absenoldeb oherwydd salwch yr adroddwyd yn eu cylch:

| **Rheswm dros absenoldeb** | **%** | **Diwrnodau a gollwyd** |
|---|---|---|
| Problemau gyda'r system anadlu | 27 | 216 |
| Problemau iechyd meddwl | 24 | 189 |
| Problemau gyda'r system gyhyrysgerbydol a meinwe gyswllt | 15 | 117 |
| Cyfanswm yr achosion o absenoldeb | 100 | 789 |

6. Problemau gyda'r system anadlu yw'r prif reswm o hyd dros absenoldeb yn ystod y misoedd diwethaf (dyna'r rheswm dros 27.4% o'r absenoldebau yr adroddwyd yn eu cylch, sef 216 o ddiwrnodau a gollwyd) a gallai patrymau tymhorol a ddisgwylir esbonio hynny. Parheir i dynnu sylw arweinwyr a rheolwyr at absenoldeb oherwydd problemau iechyd meddwl, wrth i ni ganolbwyntio ar wella lles yn y sefydliad. Mae arweinwyr a rheolwyr wrthi'n gweithio ar fesurau i ymdrin â'r mater hwn.

**Lles**

7. Rydym wedi cychwyn nifer o fentrau i ategu ein hymrwymiad i sicrhau lles yn Cyfoeth Naturiol Cymru:

- Rydym wedi adolygu a diweddaru'r Polisi Trais yn erbyn Menywod a'r Polisi Camdriniaeth Ddomestig ac rydym wedi cyhoeddi polisi a gweithdrefn ar gyfer iechyd a lles meddwl.
- Rydym yn parhau i hyrwyddo ymgyrchoedd lles ar Yammer ac yn y bwletin misol i reolwyr lles, iechyd a diogelwch, megis Diwrnodau Braf o Haf (sy'n cynghori staff sy'n gweithio yn yr awyr agored i fod yn ofalus wrth weithio yn ystod cyfnodau heulog), yr Wythnos Iechyd Dynion, y Mis Cerdded Cenedlaethol a'r Wythnos Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl. Yn ogystal, rydym wedi cefnogi mentrau parhaus yn llwyddiannus,

megis yr ymgyrch Amser i Siarad sydd wedi arwain at gryn dipyn o lwyddiant mewn rhannau o'r busnes o safbwynt helpu staff i siarad am broblemau iechyd meddwl.

## 8. Prif ddatblygiadau

i. **Anafiadau a arweiniodd at golli amser gweithwyr** – Roedd aelod o staff wrthi'n ymchwilio i broblemau'n ymwneud ag arogleuon cas ar safle ger Ystrad Mynach yn y de. Roedd yr unigolyn yn beicio ac, wrth fynd drwy fynedfa llwybr beicio sy'n atal cerbydau modur rhag pasio, arafodd gan daro ei ben-glin ar y gât a bu bron iddo syrthio oddi ar ei feic. Anafodd ei ben-glin a'i gefn a chollodd dros saith diwrnod o waith, felly roedd angen adrodd ynghylch y digwyddiad wrth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cael gwybod hefyd, dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995, am anaf yr adroddwyd yn ei gylch eisoes a arweiniodd at golli amser ac a ddigwyddodd yn ystod gwaith ailstocio fforest ym Myherin, oherwydd bod yr unigolyn a anafwyd wedi colli dros saith diwrnod o amser.

ii. **Anaf i aelod o'r cyhoedd –** Cafodd aelod o'r cyhoedd ei anafu ar ôl syrthio oddi ar ei feic ar Ynys Llanddwyn ger Niwbwrch. Syrthiodd o ganlyniad i'r ffaith bod rhwystr dros dro wedi'i osod i reoli stoc sy'n pori, oherwydd grid gwartheg diffygiol. Mae adolygiad o ddigwyddiad difrifol wedi'i gychwyn.

iii. **Gweithwyr sy'n gweithio ar eu pen eu hunain ac o bell –** Yn dilyn yr archwiliad arfau tanio, a ganfu fod rhywfaint o ddryswch ynghylch diffiniadau o weithwyr sy'n gweithio ar eu pen eu hunain/o bell ac ynghylch pryd y dylid defnyddio'r system StaffCall, mae gwaith wedi'i wneud i sicrhau eglurder a sicrhau bod y staff yn gwybod sut i wneud y defnydd gorau o'r system. Caiff y wybodaeth dan sylw ei rhannu â'r staff yn y cyfarwyddyd ynghylch lles, iechyd a diogelwch a gaiff ei ddosbarthu gyda'r canllaw misol i reolwyr ym mis Mehefin. Mae gwaith i nodi system integredig hirdymor ar gyfer gweithwyr sy'n gweithio ar eu pen eu hunain ac o bell yn parhau.

iv. **Syndrom Dirgrynu Llaw-Braich** – Fel y nodwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai, yn dilyn ymweliad gan Arolygydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael Hysbysiad Tramgwyddo gan yr Awdurdod. Digwyddodd yr ymweliad a chyflwynwyd yr hysbysiad o ganlyniad i bedwar adroddiad a gyflwynwyd gennym, dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995, ar ôl cael adroddiadau goruchwylio staff gan ein darparwr iechyd galwedigaethol. Nododd yr Arolygydd nifer o achosion o dorri cyfraith iechyd a diogelwch yn ystod yr ymweliad, ac mae angen yn awr i ni roi sylw i'r achosion hynny. Mae'r Arolygydd wedi pennu terfyn amser o bedwar mis i ni fynd i'r afael â'r achosion o dorri'r gyfraith, er mwyn paratoi ar gyfer gweithredu mesurau i reoli'r risg yn effeithiol. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a sefydlwyd i ymgymryd â'r gwaith o gydymffurfio â'r hysbysiad, yn gwneud cynnydd da a bydd yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llwyr â'i ofynion. Rydym hefyd wedi bod mewn cysylltiad â sefydliadau eraill lle mae'r Awdurdod wedi nodi problemau cysylltiedig, er mwyn dysgu a rhannu unrhyw wersi defnyddiol, e.e. Comisiwn

Coedwigaeth Prydain Fawr a Natural England. **Gweler y cynllun gweithredu yn Atodiad 1**.

v. **Y diweddaraf am y farwolaeth yn Abercynon** – Rydym wedi cael gwybod y bydd cwêst y Crwner yn cael ei gynnal ar 21, 22 a 23 Mehefin. Mae'r Crwner wedi galw un o'n Huwch-ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch i fod yn dyst yn y cwêst.

vi. **Y diweddaraf am yr anaf i gontractwr ar y safle cynaeafu a chynhyrchu uniongyrchol yn Nhalyllychau** – Ymwelodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch â safle'r ddamwain ar 9 Mai gyda chynrychiolwyr o Cyfoeth Naturiol Cymru a'r cwmni contractio, Smerdon Tree Services. Rydym yn aros i glywed gan Arolygydd yr Awdurdod ynghylch y camau nesaf.

**<u>Argymhelliad</u>**

9. Dylid nodi'r materion a'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn.

**<u>Prif risgiau</u>**

10. Caiff risgiau parhaus o safbwynt Lles, Iechyd a Diogelwch eu nodi a'u monitro drwy'r gofrestr risg ar gyfer Lles, Iechyd a Diogelwch. Ni ragwelir unrhyw risgiau ychwanegol.

**<u>Goblygiadau ariannol</u>**

11. Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol. Mae buddsoddi mewn anghenion dysgu a datblygu ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i gynnwys yn y gyllideb hyfforddiant ar gyfer 16/17.

**<u>Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb</u>**

12. Amherthnasol – papur briffio yn unig.

**<u>Atodiad</u>**

1. Rheoli Dirgrynu Llaw-Braich – Asesiad Risg Cyffredinol